**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru

Russell.George@senedd.cymru

13 Gorffennaf 2023

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mehefin 2023 mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Ddeintyddiaeth. Byddaf yn ymdrin â'r pwyntiau penodol a wnaed yn eich llythyr isod:

**Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer creu rhestr aros ganolog, gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn am y cynnydd erbyn diwedd 2023. Fel cam dros dro, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn creu rhestr aros ganolog ar gyfer ei ardal erbyn diwedd 2023.**

1. *A allwch chi egluro pryd y caiff rhestr aros ganolog ei chyflwyno.*

Rhannaf eich cred ym mhwysigrwydd creu rhestr aros ganolog cyn gynted â phosibl. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar hyn a gallaf gadarnhau mai'r nod yw cwblhau hyn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

**Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r gofynion ar gyfer casglu data drwy ddeintyddion y GIG er mwyn symleiddio'r broses a lleihau dyblygu gwaith. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2023, a dylid rhoi gwybod i ni beth yw'r canfyddiadau erbyn mis Mawrth 2024 fan bellaf.**

2. *A allwch chi gadarnhau y byddwch yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda chanfyddiadau'r grŵp erbyn y dyddiad sydd wedi'i bennu yn ein hargymhelliad?*

Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei drafod fel rhan o'r trafodaethau ynghylch y contract newydd. Er na allaf fanylu ar yr hyn a fydd yn cael ei drafod, gallaf gadarnhau y bydd y defnydd o'r Asesiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg, y data y mae'n ei gynhyrchu a'r amser sy'n gysylltiedig â'i ddefnyddio yn bendant yn cael eu trafod fel rhan o'r trafodaethau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i alluogi trafodaethau ar y contract newydd i ddechrau cyn gynted â phosibl.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y strategaeth ar gyfer y gweithlu deintyddol yn adlewyrchu'r dyheadau newydd a'r angen am fwy o gymysgedd sgiliau yn y gweithlu, a dylid cyhoeddi'r strategaeth hon cyn gynted â phosibl. Gan fod disgwyl i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gael y drafft ym mis Rhagfyr 2022, dylid cyhoeddi'r strategaeth derfynol erbyn gwanwyn 2023 fan bellaf.**

3. *A allwch chi roi rhagor o fanylion am gynnwys cynllun y gweithlu ac a yw'n adlewyrchu'r dyheadau newidiol a'r angen am gymysgedd sgiliau ehangach yn y gweithlu, fel y mae'r argymhelliad yn ei nodi?*

Fel y dywedais yn ystod y ddadl ar 21 Mehefin, mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wrthi'n datblygu cynllun gweithlu ar gyfer deintyddiaeth a fydd yn canolbwyntio nid yn unig ar dyfu'r gweithlu, ond ar ei gadw hefyd. Yn gynharach eleni, cyhoeddais gynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu, ac roedd angen i'r cynllun hwn gael ei gyhoeddi'n gyntaf. Mae'n ymrwymo i gyflawni cynllun gweithlu strategol ar gyfer deintyddiaeth erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu i raddau helaeth ar y sail y gall cymysgedd sgiliau chwarae rôl sylweddol wrth ddarparu gofal deintyddol y GIG. Mae'r rhwystr rheoleiddiol, a oedd yn atal therapyddion deintyddol rhag agor a chau cyrsiau triniaeth yn benodol, bellach wedi'i ddileu. Golyga hyn fod hon yn rhan o'r gweithlu deintyddol y mae angen i ni fuddsoddi ynddi. Bydd nifer y lleoedd therapi deintyddol ym Mhrifysgol Caerdydd yn cynyddu o 11 i 18 o'r mis Medi hwn ymlaen ac yn cynyddu i hyd at 24 o fis Medi 2024 ymlaen. Mae AaGIC hefyd wedi cyflwyno rhaglen sylfaen un flwyddyn ar gyfer graddedigion therapi deintyddol newydd a fydd yn eu cefnogi yng nghamau cynnar eu gyrfa yn y GIG.

Mae cynllun y gweithlu yn allweddol i nodi'r niferoedd hyfforddi sydd eu hangen arnom ar gyfer y dyfodol, ond ni fyddwn yn aros am hynny os bydd cyfleoedd i gynyddu'r niferoedd hyn yn ymddangos yn gynharach.

**Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i gyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i alluogi therapyddion deintyddol i gael rhif perfformiwr, a dylai roi amserlen i ni ar gyfer gwneud hyn.**

4. *A allwch chi gadarnhau nad oes bellach angen rhif perfformiwr ar therapyddion deintyddol i agor a chau cyrsiau triniaeth?*
5. *A allwch chi hefyd egluro beth yw ystyr 'y flwyddyn ariannol nesaf', h.y. a fydd y newid yn dod i rym o fis Ebrill 2024?*

Yn ddiweddar, rydym wedi dileu'r rhwystr rheoleiddiol canfyddedig a oedd yn atal therapyddion deintyddol, hylenwyr a thechnegwyr deintyddol clinigol rhag chwarae rhan lawn yng ngofal y GIG. Ers mis Ebrill 2023, mae'r gweithwyr deintyddol proffesiynol hyn bellach yn gallu agor a chau cyrsiau triniaeth y GIG, sy'n cynyddu capasiti'r gweithlu presennol. Gwnaed hyn heb yr angen i roi rhif perfformiwr i'r aelodau hyn o'r tîm deintyddol.

**Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer ehangu'r rhaglen Gwên am Byth (GAB) i leoliadau preswyl eraill, fel cartrefi gofal i bobl iau sy'n agored i niwed, tai gwarchod a thai gofal ychwanegol, gan adrodd ei ganfyddiadau yn ôl i'r Pwyllgor hwn erbyn diwedd 2023.**

6. *A allwch chi roi manylion am ba fyrddau iechyd y cyfeirir atynt, a nifer a math y lleoliadau?*

Rwyf wedi cael gwybod bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu gwasanaethau yn y cartref i bobl sy’n byw yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal. Cynigir gwasanaeth cynhwysfawr i bobl ag Anghenion Gofal Arbennig ac mae Rhaglenni Hyrwyddo Iechyd y Geg lleol ar gyfer plant ac oedolion ag Anableddau Dysgu.

Mae tîm GAB Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi cynllunio rhaglen hyfforddiant ar gyfer staff gofal yn y cartref ac wedi hyfforddi dros 85 o staff hyd yn hyn. Mae’r tîm hefyd yn gweithio gyda Nyrsys Ardal.

Mae gan Gwm Taf Morgannwg rai cartrefi gofal sy’n cynnig tai gwarchod ochr yn ochr â’r gwasanaethau arferol a gynigir gan gartrefi gofal ac mae’r rhain yn ymwneud â’r rhaglen GAB. Ceir hefyd gartref gofal sydd ag uned ar gyfer oedolion iau sy’n rhan o’r rhaglen GAB.

Yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, mae’r tîm GAB hefyd yn darparu hyfforddiant gofal ceg ar gyfer lleoliadau byw â chymorth sy’n darparu gofal i oedolion iau. Maent hefyd yn darparu sesiynau ar gyfer y sector gofal yn y cartref sy’n cael ei redeg gan y cyngor ar draws Merthyr a Rhondda Cynon Taf.

Ym Mhowys, gall lleoliadau preswyl eraill gael mynediad at wasanaeth yn y cartref y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.

7. *A allwch chi gadarnhau hefyd pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ehangu’r rhaglen Gwên am Byth yn y byrddau iechyd sy’n weddill?*

Ein ffocws ar hyn o bryd yw ailsefydlu’r rhaglen GAB yn dilyn y bwlch a grëwyd yn sgil pandemig COVID-19. Byddai angen cyllid a phersonél ychwanegol ar gyfer ehangu ymhellach ac ar hyn o bryd mae’n anodd iawn cael gafael ar y rhain.

Rwy’n gobeithio y bydd y diweddariad hwn yn ddefnyddiol i chi. Pe bai o fudd i’r Pwyllgor, gallaf roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy’n digwydd ar yr holl argymhellion yn ystod tymor yr hydref.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services